

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:  
18/2019  
DYDDIAD CYHOEDDI:  
11/04/2019

## **Diweddariad ar yr Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd tuag at Roi Organau: ffigurau allweddol o Gam 16**

### **Adroddiad Diweddarau**

#### **Cefndir**

Derbyniodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Cyflwynodd y Ddeddf system feddal o optio allan o ran cydsynio i roi organau a meinweoedd yn dilyn marwolaeth yng Nghymru, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

Mae ymgyrch gyfathrebu barhaus yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael gwybodaeth lawn am yr hyn y mae'r newidiadau yn ei olygu a'r dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithlonrwydd yr ymgyrch a goleuo'i datblygiad, mae angen gwybodaeth am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o ran cyfraith rhoi organau, ac agweddau tuag at newidiadau yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru.

I gyflawni'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru a gynhelir gan Beaufort Research Ltd. Mae data'n cael ei gasglu bob chwe mis rhwng Medi 2017 a Mawrth 2020, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed fel rhan o werthuso Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) a chaiff diweddariadau ar y data eu cyhoeddi.

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer cam 16 rhwng 17 a 30 Medi 2018 (1,015 o ymatebwyr). Cynhaliwyd ychydig o gyfweiliadau ar ôl y dyddiadau hyn. Lluniwyd yr arolwg i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth sy'n byw yng Nghymru sy'n 16 mlwydd oed a throsodd. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd ar y cam hwn o'r arolwg wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Mae manylion y dulliau a ddefnyddiwyd wedi eu cyhoeddi'n flaenorol<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup>[Agweddau'r cyhoedd ar roi organau](#)

## Prif ganfyddiadau

### Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system gyfredol o roi organau

- Gofynnwyd i ymatebwyr, yn ddigymell, a oeddynt yn ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau. Dywedodd bron i naw allan o ddeg (86 y cant) eu bod yn ymwybodol o'r system gyfredol, roedd hyn wedi cynyddu o 82 y cant yng ngham 15. Mewn camau blaenorol o'r arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr, yn ddigymell, a oeddynt yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd i'r system rhoi organau. Gan i'r system fod mewn bodolaeth am ddwy flynedd bellach, mae geiriad y cwestiwn wedi'i ddiwygio. Er nad oes modd cymharu'n gyfan gwbl oherwydd y newid yn y geiriad, mae'n ddiddorol nodi i 70 y cant ddweud eu bod yn ymwybodol o newidiadau yng ngham 14<sup>2</sup>.
- Fel y dengys Tabl 1 yn atodiad 1, yr oedd menywod, a'r rhai yn y graddau cymdeithasol ABC1 yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn ymwybodol o'r system gyfredol. Yr oedd y rhai 16 – 24 oed yn llai tebygol o adrodd ymwybyddiaeth.
- Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau sut yr oedd y system yn gweithio yn eu barn hwy. Roedd y cwestiwn hwn yn ddigymell. Dengys tabl 2 yn atodiad 1 i dri chwarter (75 y cant) amlinellu'n gywir sut yr oedd y system yn gweithio. Roedd hyn ychydig yn is nac yn y cam blaenorol, lle y bu i 79 y cant amlinellu'n gywir sut yr oedd y system yn gweithio. Yr oedd gwahaniaeth bychan yn y ddealltwriaeth o'r system rhwng y rhywiau, gydag ychydig mwy o fenywod yn nodi'n gywir sut yr oedd y system yn gweithio o gymharu â dynion (77 y cant o fenywod, 73 y cant o ddynion). Bu i gyfran is o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE nodi'n gywir sut y mae'r system yn gweithio (69 y cant o gymharu ag 80 y cant i'r rhai yn y graddau cymdeithasol ABC1). O ran oedran, ychydig iawn o wahaniaeth oedd o ran dealltwriaeth ar draws y grwpiau oed.
- Dangoswyd i bob ymatebydd ddisgrifiad o'r system gyfredol o roi organau gan ofyn a oeddynt wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani'n flaenorol. Dywedodd bron i wyth allan o bob deg o ymatebwyr (79 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y system. Dywedodd cyfrannau tebyg o'r ddau ryw eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth yn flaenorol am y system (78 y cant o wrywod, 80 y cant o fenywod). Dywedodd ychydig dan dri chwarter y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y system (73 y cant) o'i gymharu â dros wyth allan o ddeg (86 y cant) o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1. Yr ymatebwyr ieuengaf oedd lleiaf tebygol o adrodd eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y system (74 y cant o bobl ifanc 16 - 34 oed o'i gymharu ag 81 ac 82 y cant o bobl 35 - 54 oed a phobl 55 oed a throsodd).

### Cefnogaeth ar gyfer caniatâd tybiedig

- Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddynt yn cytuno pe byddai unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad y dylid trin hynny fel penderfyniad i fod yn rhoddwr, ac y dylid annog teuluoedd i dderbyn hynny. Yr oedd tri chwarter (75 y cant) yn cytuno â'r datganiad (gydag ychydig dan bedwar o bob deg yn cytuno'n gryf). Mae'r gyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno â'r datganiad wedi amrywio rhwng dau draean a thri chwarter ers

---

<sup>2</sup> [Agweddau'r cyhoedd ar roi organau: camau 13 a 14](#)

i'r cwestiwn gael ei ofyn gyntaf yng ngham 11 (Mawrth 2016), gydag ychydig dros saith o bob deg (73 y cant) yn cytuno yng ngham 15.

- Dengys Tabl 3 yn atodiad 1 bod y cyfrannau o fenywod a dynion a oedd yn cytuno ychydig yn wahanol gyda mwy o ddynion (77 y cant) yn cytuno na menywod (73 y cant). Yr oedd wyth o bob deg (80 y cant) o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 yn cytuno, gyda'r ffigur cyfatebol ar gyfer y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE yn saith o bob deg (69 y cant). Yr oedd cytundeb â'r datganiad ar ei uchaf ymhlith y rhai 35 – 54 oed sef bron i wyth allan o ddeg, ac yr oedd oddeutu dri chwarter ar gyfer y rhai 16 – 34 oed ac ychydig dros saith allan o ddeg ar gyfer y rhai dros 55 oed (74 y cant a 72 y cant yn y drefn honno).

### **Trafod dymuniadau gydag aelod o'r teulu**

- Gofynnwyd i bob ymatebydd 'A ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw gydag aelod o'r teulu?'. Dywedodd dros hanner (56 y cant) o ymatebwyr eu bod wedi trafod eu dymuniadau gyda'u teulu. Mae hyn yn debyg i'r ffigur o 55 y cant a adroddwyd yng ngham 14, ac yn gynnydd ers cam 13 pan ddywedodd oddeutu hanner (51 y cant) eu bod wedi trafod eu dymuniadau gydag aelod o'r teulu.
- Dengys Tabl 4 bod dynion yn fwy tebygol o ddweud nad oeddynt wedi trafod eu dymuniadau (48 y cant, o'i gymharu â 40 y cant o fenywod). Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yng ngraddau cymdeithasol C2DE nad oeddent wedi trafod eu dymuniadau gydag aelod o'r teulu, o'i gymharu ag ychydig dros draean o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 (53 y cant o'r rhai yn C2DE, 35 y cant o'r rhai yn ABC1). Dywedodd llai na dau o bob pump (37 y cant) o'r rhai 35 – 54 oed nad oeddent wedi trafod eu dymuniadau gyda'u teulu, o'i gymharu â hanner y rhai 16 – 34 oed a dros ddau o bob pump o'r rhai 55 oed a throsodd (50 y cant ar gyfer rhai 16 – 34 oed a 44 y cant ar gyfer rhai 55 oed a throsodd).

### **Camau a gymerwyd ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno**

- Gofynnwyd i bob ymatebydd beth yr oeddent wedi'i wneud o ran penderfyniad ar roi organau ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015. Dywedodd oddeutu un o bob pump eu bod wedi optio i mewn (21 y cant), ac yr oedd llai nac un o bob ugain (pedwar y cant) wedi optio allan. Dywedodd ychydig dros hanner (52 y cant) nad oeddynt wedi gwneud dim byd gan eu bod yn hapus i ganiatâd tybiedig fod yn berthnasol ac nid oedd oddeutu un o bob pump wedi meddwl am y peth eto, neu yn dal i ystyried eu hopsiynau (15 y cant a chwech y cant yn y drefn honno).
- Dengys tabl 5 fod menywod yn fwy tebygol o fod wedi optio i mewn na dynion (23 y cant yn erbyn 18 y cant) ac roedd dynion yn fwy tebygol o fod wedi gwneud dim byd gan eu bod yn hapus i ganiatâd tybiedig fod yn berthnasol (56 y cant ar gyfer dynion, 49 y cant ar gyfer menywod). Dywedodd bron i chwarter y rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 eu bod wedi optio i mewn, o'i gymharu â llai nag un o bob pump yn grwpiau cymdeithasol C2DE (17 y cant). Yr oedd ymatebwyr yn grwpiau cymdeithasol C2DE hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn hapus i ganiatâd tybiedig fod yn berthnasol (48 y cant, o'i gymharu â 56 y cant ar gyfer grwpiau ABC1). Dywedodd dros chwarter ymatebwyr C2DE eu bod yn parhau i ystyried eu hopsiynau (wyth y cant) neu nad oeddent wedi meddwl am y peth eto (20 y cant), o'i gymharu ag ychydig dros un rhan o ddeg o ymatebwyr yng ngrwpiau ABC1 (gyda thri y cant yn dweud eu bod yn parhau i ystyried eu hopsiynau, ac 11 y cant yn dweud nad oeddynt wedi meddwl am y peth).

- Gwelwyd gwahaniaethau yn ôl grwpiau oed hefyd. Dywedodd ychydig dros un o bob pump (22 y cant) o rai 16 – 34 oed nad oeddynt wedi meddwl am y peth eto, o'i gymharu ag un o bob wyth o rai 35 – 54 oed a'r rhai 55 oed a throsodd (12 y cant a 14 y cant yn y drefn honno). Dywedodd dros hanner y rhai 35 – 54 oed a'r rhai 55 oed a throsodd nad oeddynt wedi gwneud dim gan eu bod yn hapus i ganiatâd tybiedig fod yn berthnasol (55 a 56 y cant yn y drefn honno), ond dywedodd llai na hanner y grŵp oedran iau mai dyma'r sefyllfa (45 y cant). Yr oedd chwarter o'r rhai 35 – 54 oed wedi optio i mewn, gyda'r ffigurau cyfatebol ar gyfer y grwpiau oedran eraill yn is (21 y cant ar gyfer y rhai 16 – 34 oed a 17 y cant ar gyfer y rhai 55 oed a throsodd). Yr oedd y rhai yn y grŵp oedran hynaf ychydig yn fwy tebygol o fod wedi optio allan (chwech y cant, o'i gymharu â thri y cant ar gyfer rhai 35 – 54 oed a phedwar y cant ar gyfer rhai 16 – 34 oed).
- Yna gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi optio i mewn, wedi optio allan neu wedi gwneud dim gan eu bod yn hapus i ganiatâd tybiedig fod yn berthnasol, a oeddent wedi trafod y penderfyniad hwnnw gydag aelod o'r teulu. Yr oedd oddeutu saith o bob deg ymatebydd wedi trafod y penderfyniad (69 y cant). Yr oedd y gyfran yn uwch ar gyfer menywod (72 y cant o'i gymharu â 66 y cant ar gyfer dynion). Dywedodd bron i dri chwarter (73 y cant) o ymatebwyr yng ngraddau cymdeithasol ABC1 eu bod wedi trafod eu penderfyniad, o'i gymharu ag ychydig dan ddau draean (63 y cant) o'r rhai yn grwpiau C2DE. Ymatebwyr 35 – 54 oed oedd fwyaf tebygol o fod wedi trafod eu penderfyniad gydag aelod o'r teulu (dywedodd 73 y cant eu bod wedi gwneud hynny, o'i gymharu â 65 y cant o rai 16 – 34 oed a 68 y cant o rai 55 oed a throsodd) (Tabl 6).

## ATODIAD 1

Tabl 1: A ydych chi'n ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau?

	Cyfanswm	Rhyw		Gradd Gymdeithasol						Oedran		
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+
Sail	1,015	422	593	187	311	186	326	498	512	271	295	449
Heb ei phwysoli	1,015	493	522	191	318	186	315	509	501	297	331	386
Ydw	875 86%	416 84%	460 88%	182 95%	293 92%	152 82%	244 78%	475 93%	396 79%	240 81%	293 88%	343 89%
Na	127 13%	74 15%	54 10%	8 4%	23 7%	33 18%	62 20%	31 6%	96 19%	55 18%	35 11%	37 10%
Ddim yn gwybod	12 1%	4 1%	8 2%	1 0%	2 1%	1 0%	8 3%	3 1%	9 2%	2 1%	4 1%	6 2%

Sail: pob ymatebydd

**Tabl 2: Allwch chi ddweud wrtha' i sut mae'r system yn gweithio yn eich barn chi? (Digymell)**

	Cyfanswm	Rhyw		Gradd Gymdeithasol						Oedran		
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+
Sail												
Heb ei phwysoli	877	356	521	179	288	152	254	467	406	218	261	398
Wedi'i phwysoli	875	416	460	182	293	152	244	475	396	240	293	343
YN	655	302	353	147	232	115	158	380	273	178	220	257
GYFFREDINOL	75%	73%	77%	81%	79%	75%	65%	80%	69%	74%	75%	75%
1, 2 neu 3												
1. System optio allan \ bydd angen optio allan	541 62%	247 59%	295 64%	119 66%	201 69%	97 63%	123 51%	320 67%	220 56%	148 61%	194 66%	200 58%
2. Caniatâd tybiedig	236 27%	107 26%	129 28%	65 36%	77 26%	38 25%	55 23%	142 30%	93 24%	76 32%	68 23%	92 27%
System optio i mewn	88 10%	44 11%	44 10%	15 8%	25 9%	14 9%	32 13%	41 9%	46 12%	32 13%	31 10%	25 7%
3. Rhaid i chi optio i mewn neu optio allan \ cofrestru naill ffordd neu'r llall (neu wneud dim)	20 2%	6 2%	13 3%	- -	6 2%	3 2%	11 5%	6 1%	14 3%	4 2%	5 2%	11 3%
Bydd y teulu'n penderfynu	25 3%	11 3%	14 3%	6 3%	11 4%	4 3%	3 1%	17 4%	8 2%	9 4%	7 2%	10 3%
Er gwell	5 1%	4 1%	1 0%	2 1%	1 0%	1 1%	2 1%	3 1%	3 1%	1 0%	3 1%	1 0%
Pob un arall	41 5%	18 4%	23 5%	3 2%	9 3%	6 4%	21 9%	12 3%	27 7%	10 4%	16 6%	15 4%
Ddim yn gwybod	53 6%	27 7%	26 6%	7 4%	16 5%	11 7%	19 8%	23 5%	30 8%	13 5%	13 5%	27 8%

Sail: ymatebwyr ymwybodol o'r system gyfredol

**Tabl 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, y dylai hyn gael ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr ac y dylai teuluoedd gael eu hannog i dderbyn hyn?**

	Cyfanswm	Rhyw		Gradd Gymdeithasol						Oedran		
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+
Sail												
Heb ei phwysoli	1,015	422	593	187	311	186	326	498	512	271	295	449
Wedi'i phwysoli	1,015	493	522	191	318	186	315	509	501	297	331	386
Cytuno'n gryf	382 38%	193 39%	189 36%	87 46%	126 40%	58 31%	109 35%	213 42%	167 33%	108 36%	145 44%	128 33%
Cytuno	378 37%	188 38%	190 36%	75 39%	119 38%	75 40%	106 34%	194 38%	181 36%	112 38%	117 35%	149 38%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	89 9%	42 8%	48 9%	16 8%	26 8%	13 7%	34 11%	42 8%	47 9%	26 9%	19 6%	44 11%
Anghytuno	102 10%	45 9%	58 11%	9 5%	28 9%	28 15%	37 12%	37 7%	65 13%	27 9%	31 9%	44 11%
Anghytuno'n gryf	39 4%	17 3%	21 4%	2 1%	11 3%	8 4%	17 6%	13 3%	26 5%	17 6%	12 4%	10 3%
Ddim yn gwybod	25 2%	9 2%	16 3%	1 1%	7 2%	5 3%	11 4%	9 2%	16 3%	7 2%	7 2%	11 3%
CYTUNO yn gyffredinol	760 75%	380 77%	379 73%	162 85%	246 77%	132 71%	215 68%	408 80%	347 69%	221 74%	262 79%	277 72%
ANGHYTUNO yn gyffredinol	141 14%	62 13%	79 15%	12 6%	39 12%	36 19%	55 17%	50 10%	91 18%	44 15%	43 13%	54 14%

Sail: pob ymatebydd

**Tabl 4: A ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw gydag aelod o'r teulu?**

	Cyfanswm	Rhyw		Gradd Gymdeithasol						Oedran		
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+
Sail												
Heb ei phwysoli	1015	422	593	187	311	186	326	498	512	271	295	449
Wedi'i phwysoli	1015	493	522	191	318	186	315	509	501	297	331	386
Ydw	570 56%	257 52%	313 60%	140 73%	192 60%	88 47%	147 47%	331 65%	236 47%	149 50%	209 63%	212 55%
Nac ydw	442 44%	235 48%	206 40%	51 27%	126 39%	97 52%	167 53%	177 35%	263 53%	148 50%	122 37%	171 44%
Ddim yn gwybod	3 0%	1 0%	2 0%	- -	1 0%	1 1%	1 0%	1 0%	2 0%	- -	- -	3 1%

Sail: Pob ymatebydd



**Tabl 5: Ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015, pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'r hyn a wnaethoch chi?**

	Cyfanswm	Rhyw		Gradd Gymdeithasol						Oedran		
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+
Sail												
Heb ei phwysoli	1,015	422	593	187	311	186	326	498	512	271	295	449
Wedi'i phwysoli	1,015	493	522	191	318	186	315	509	501	297	331	386
Cofrestru i optio i mewn	210 21%	87 18%	122 23%	52 27%	71 22%	35 19%	48 15%	123 24%	83 17%	61 21%	82 25%	66 17%
Cofrestru i optio allan	44 4%	15 3%	28 5%	6 3%	15 5%	3 2%	19 6%	21 4%	22 4%	12 4%	10 3%	22 6%
Dim byd – hapus i ganiatâd tybiedig fod yn berthnasol	530 52%	275 56%	255 49%	105 55%	182 57%	93 50%	150 48%	287 56%	242 48%	133 45%	181 55%	217 56%
Dim byd – ond yn dal i ystyried fy opsiynau	58 6%	28 6%	30 6%	6 3%	12 4%	16 8%	25 8%	18 3%	41 8%	20 7%	18 5%	20 5%
Dim byd – heb feddwl am hyn eto	157 15%	80 16%	77 15%	20 10%	36 11%	34 18%	68 21%	56 11%	102 20%	65 22%	39 12%	54 14%
Ddim yn gwybod	13 1%	6 1%	8 1%	2 1%	2 1%	6 3%	4 1%	4 1%	10 2%	5 2%	1 0%	7 2%
Gwrthod	2 0%	1 0%	1 0%	- -	1 0%	- -	1 0%	1 0%	1 0%	1 0%	1 0%	- -

Sail: Pob ymatebydd

**Tabl 6: A ydych chi erioed wedi trafod y penderfyniad yna gydag aelod o'r teulu? (Penderfyniad a wnaed ers i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei chyflwyno)**

	Cyfanswm	Rhyw		Gradd Gymdeithasol						Oedran		
		Gwryw	Benyw	AB	C1	C2	DE	ABC1	C2DE	16-34	35-54	55+
Sail												
Heb ei phwysoli	780	322	458	160	261	131	223	421	354	185	241	354
Wedi'i phwysoli	784	378	406	164	268	131	217	431	348	206	273	305
Ydw	540	248	292	134	183	79	140	317	219	134	198	209
	69%	66%	72%	82%	68%	61%	64%	73%	63%	65%	73%	68%
Nac ydw	244	130	114	30	85	51	77	115	129	72	75	97
	31%	34%	28%	18%	32%	39%	36%	27%	37%	35%	27%	32%

Sail: Ymatebwyr sydd wedi cofrestru i optio i mewn, wedi cofrestru i optio allan neu wedi gwneud dim byd gan eu bod yn hapus i ganiatâd tybiedig fod yn berthnasol

## ATODIAD 2

Rhoi organau - cwestiynau omnibws  
Medi 2018

C1. (DIGYMELL) A ydych chi'n ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

GOFYNNWCH OS YN YMWHYBODOL O UNRHYW NEWIDIADAU YN C2

C2. Allwch chi ddweud wrtha' i sut mae'r system yn gweithio yn eich barn chi?

PENAGORED

Edrychwch ar y cerdyn hwn

### DANGOS CERDYN

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru system newydd ar gyfer rhoi organau ar 1 Rhagfyr 2015. Gall pobl yn awr 'optio allan' yn ffurfiol o roi organau drwy osod eu henwau ar gofrestr. Os byddant yn dewis peidio â gwneud hynny, ar ôl cael y cyfle, yna bydd hyn yn cael ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr, a bydd teuluoedd yn cael eu hannog, yn sensitif, i'w dderbyn. Mae'r system newydd yn caniatáu i aelodau'r teulu wrthwynebu rhoi organau ar y sail eu bod yn gwybod na fyddai'r sawl sydd wedi marw wedi dymuno rhoi caniatâd. Pery'r cyfle i 'optio i mewn' a chofrestru penderfyniad i fod yn rhoddwr organau.

C3. (CYMELL) Cyn heddiw, a ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid hwn?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

C4. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, y dylai hyn gael ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr ac y dylai teuluoedd gael eu hannog i dderbyn hyn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

C5. A ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw gydag aelod o'r teulu?

- Ydw
- Nac ydw

---

**C6. Ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015, pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'r hyn a wnaethoch chi?**

**01: Cofrestru i optio i mewn**

**02: Cofrestru i optio allan**

**03: Dim byd – hapus i ganiatâd tybiedig fod yn berthnasol**

**04: Dim byd – ond yn dal i ystyried fy opsiynau**

**05: Dim byd – heb feddwl am hyn eto**

**GOFYN C7 OS RHODDWDYD ATEB COD 1 NEU 2 NEU 3 YN C6**

**C7. A ydych chi erioed wedi trafod y penderfyniad yna gydag aelod o'r teulu?**

- Ydw
- Nac ydw

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Janine Hale  
Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [rhoi.organau@llyw.cymru](mailto:rhoi.organau@llyw.cymru)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2019

ISBN: 978-1-83876-138-7

© Hawlfraint y Goron 2019



Mae'r holl gynnwys ar gael dan [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#) ac eithrio pan nodir fel arall